Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i:**

**Adroddiad Sbotolau PEEL AHGTAEF: Ymateb Plismona i Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Rwy'n cydnabod yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn, a byddaf yn monitro cynnydd Heddlu Dyfed-Powys (HDP) o ran eu gweithredu.

Nododd yr adroddiad faterion tebyg i'r rhai y mae'r Heddlu eisoes wedi dechrau eu gweithredu drwy eu grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Rwy'n croesawu'r adroddiad a sicrwydd gan yr Heddlu y byddant yn gweithredu unrhyw argymhellion pellach drwy'r un fforwm.

Yr wyf wedi nodi fy marn a sicrwydd yr wyf wedi'i dderbyn wrth y Prif Gwnstabl mewn perthynas â'r argymhellion ar gyfer heddluoedd o fewn yr adroddiad isod.

**Argymhelliad 1: Erbyn 31 Mawrth 2025, dylai heddluoedd adolygu eu prosesau ar gyfer cofnodi ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn sicrhau y cofnodir yr holl ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau cysylltiedig yn gywir.**

Yr wyf wedi fy sicrhau y bydd gwaith y mae'r Heddlu eisoes yn ei gyflawni'n cael ei gipio mewn dogfen Adolygu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Bydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn canolbwyntio ar sicrhau bod cofnodi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gywir adeg y pwynt cyswllt ac yn datblygu fframwaith ar gyfer sut y gall gael ei gofnodi pan mae'n cael ei adnabod yn ddiweddarach (er enghraifft, yn ystod ymchwiliad trosedd). Un o gamau gweithredu'r grŵp Gorchwyl a Gorffen yw newid y templed ymchwiliad trosedd fel bod modd agor Ymchwiliadau Risg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn haws ar NICHE tra bod trosedd yn cael ei ymchwilio. Rwy'n fodlon bod hyn yn bodloni'r argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad.

**Argymhelliad 2: Erbyn 30 Medi 2025, dylai heddluoedd sicrhau bod personél wedi'u hyfforddi'n briodol i nodi a chofnodi ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau cysylltiedig pan adroddir amdanynt gyntaf.**

Yr wyf wedi fy sicrhau bod Canolfan Gyfathrebu’r Heddlu wedi rhoi pecyn hyfforddi i’r grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar adnabod a chofnodi ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan Gydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yr Heddlu er mwyn asesu ei addasrwydd. Os yn briodol, bydd adolygiadau’n cael eu gwneud i’r ddogfen hon er mwyn sicrhau ei bod mor gadarn â phosibl.

**Argymhelliad 3: Erbyn 31 Mawrth 2025, dylai heddluoedd:**

- **adolygu eu prosesau asesu risg ar gyfer achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol i sicrhau bod risgiau’n cael eu hasesu’n briodol o’r cyswllt cychwynnol i’r adeg y mae achos yn cael ei gau; a**
- **sicrhau bod asesiadau risg sydd wedi’u cwblhau’n cael eu cadw yn unol â chanllawiau rheoli gwybodaeth yr heddlu.**

Yr wyf wedi fy sicrhau y bydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen yn adolygu polisïau a gweithdrefnau ar gyfer proses gyfan ymchwiliad ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae safonau yn y maes hwn eisoes yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd llywodraethu Tîm Plismona ac Atal Bro ond bydd dogfen weithdrefn a pholisi diwygiedig yn gwella ymagwedd yr Heddlu ymhellach.

**Argymhelliad 4: Erbyn 31 Rhagfyr 2024, dylai heddluoedd:**

- **sicrhau bod pob cynllun datrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn nodi’r broblem yn llawn, yn cynnwys digon o fanylion ac yn cael eu goruchwylio’n effeithiol; a**
- **gwerthuso’r holl gynlluniau datrys problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer canlyniad yn unol â Chanllawiau Perfformiad a Chanlyniadau Plismona Bro Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.**

Roedd yn dda gennyf weld bod HDP wedi derbyn sylwadau cadarnhaol mewn archwiliad AHGTAEF diweddar mewn perthynas â safon rheoli cynlluniau datrys problemau. Yr wyf wedi fy sicrhau bod yr Heddlu’n cydymffurfio’n llwyr â safonau cenedlaethol ar gyfer gwerthuso cynlluniau datrys problemau. Yn ogystal, mae’r Heddlu wedi datblygu safonau ymhellach a’u hymagwedd tuag at gynlluniau datrys problemau. Mae cynlluniau’n cael eu hadolygu’n fisol mewn cyfarfodydd llywodraethu ac

adolygir ardystiadau goruchwylwyr yn rheolaidd. Yn ogystal, mae ystorfa o ddysgu ac arferion datrys problemau'n cael ei diweddaru'n rheolaidd gan yr Heddlu er mwyn sicrhau safon uchel o arfer yn y maes hwn.

**Argymhelliad 8: Erbyn 30 Medi 2025, dylai heddluoedd roi hyfforddiant ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gwneud y defnydd gorau o ganllawiau ac adnoddau ymddygiad gwrthgymdeithasol y Coleg Plismona i bob tîm plismona bro.**

Yn ddiweddar, cynhaliodd yr Heddlu Adolygiad Plismona Bro a nododd y byddant yn cyflwyno pedwar sesiwn Datblygiad Proffesiynol Parhaus y flwyddyn ar gyfer pob Tîm Plismona ac Atal Bro. Bydd datblygu'r sesiynau hyn yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn ariannol 2025-2026. Yr wyf wedi fy sicrhau y bydd y sesiwn Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn digwydd ym mhedwerydd chwarter y flwyddyn ariannol hon. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant ymddygiad gwrthgymdeithasol penodol a fydd yn cael ei gyflwyno gan ddarparwr allanol wedi'i ardystio gan y Coleg Plismona.

Rwy'n ddiolchgar bod yr argymhellion hyn wedi'u cyhoeddi. Bydd fy nhîm a minnau'n parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr HDP er mwyn sicrhau y gweithredir ar yr holl ddysgu perthnasol o fewnwelediadau a gynhyrchwyd drwy weithgarwch AHGTAEF er mwyn gwella'r gwasanaeth plismona ar gyfer preswylwyr ardal Dyfed-Powys.